# Minutes

## Cyfarfod Cysylltu gyda Chynghorau Cymuned

Date: Dydd Iau, 20 Hydref 2022

Time: 6.00 pm

Present: Gareth Price (Head of Law and Standards (Chair), Pamela Tasker (Governance Support Officer), Taylor Strange (Governance Support Officer) Leanne Rowlands (Democratic and Electoral Services Manager), Chris Roberts (Marshfield), Julie Foster (Wentlooge), Patricia Appleton (Graig), Cath Davies (Marshfield), Nathan Tarr (Graig), Mandy George (Llanwern), Councillor Yvonne Forsey (Rogerstone West) Neil Gunther (Senior Planning Enforcement Officer)

---

1 **Ymddiheuriadau**

John Davies Bishton community council

Nigel Hallet Langstone community council

Brian Miles Wentlooge Community Council

2 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf: 23 Mehefin 2022**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.

3 **Materion yn codi**

dim materion yn codi

4 **Gorfodi Cynllunio**

Cyflwynwyd gan Neil Gunther (Uwch Swyddog Gorfodaeth Cynllunio)
Prif bwyntiau
Cynhaliwyd cyfarfod anffurfiol gyda Maerun cyn y cyflwyniad hwn.
Amlygwyd mai pwrpas y cyflwyniad hwn oedd rhoi darlun eang o orfodi cynllunio ar draws Casnewydd yn hytrach na chanolbwyntio ar un ardal yn unig.
Rhestrodd yr Uwch Swyddog Gorfodi Cynllunio y gwahanol fathau o gamau gweithredu sy'n gofyn am orfodi cynllunio sydd fel a nodwyd.

- Gwaith adeiladu neu beirianneg anawdurdodedig, newid materol neu ddefnydd tir neu adeiladau, peidio â chydymffurfio ag amodau cynllunio, tir neu adeiladau hyll, hysbysebion anawdurdodedig, gwaith anawdurdodedig i adeilad rhestredig a gwaith anawdurdodedig ar goed gwarchodedig

Cadarnhaodd yr Uwch Swyddog Gorfodi Cynllunio ar y sleid nesaf bod y tîm gorfodi wedi'i leoli yn y ganolfan ddinesig yn ogystal ag arddangos eu cyfeiriad e-bost a'u rhif swyddfa. Trafododd y Swyddog yn fyr ddeddfwriaeth allweddol fel "Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990" a sut mae'n ymwneud â gorfodi cynllunio.

*This document is available in welsh / Mae's ffurflen hon ar gael yn Gymraeg*

Nid yw cynllunio anawdurdodedig yn gwbl anghyfreithlon ond yn hytrach y camau gweithredu sy'n deillio o'r hysbysiadau a gyflwynir a allai beri cyflawni trosedd.
Soniwyd yn gryno am ddeddfwriaeth allweddol fel "Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990" yn ogystal â "Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014" ond nid yw'n ymwneud â chynllunio'n unig.
Nid yw cynllunio anawdurdodedig yn gwbl anghyfreithlon ond mae'n caniatáu rhoi hysbysiad.
"Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 24 Chwefror 2021" yw'r ddogfen gyffredinol ar gyfer polisi yng Nghymru.
Rhoddodd yr Uwch Swyddog Gorfodi Cynllunio ddyfyniad o adran 14.2.3 y Llawlyfr Rheoli Datblygu (adolygiad 2 Mai 2017) lle tynnodd sylw at y ffaith y dylid canolbwyntio ar unioni'r sefyllfa yn hytrach na chosbi'r person.
Disgrifiwyd y camau gweithredu fel a ganlyn.

- Yn gyntaf, ymweliad safle i weld a oes achos o dorri rheolau
- Yn dilyn yr ymweliad, anfonir llythyr sy'n cwmpasu cyfnod o 28 diwrnod ac sy'n esbonio sut i unioni'r sefyllfa
- Os ystyrir yn ddoeth ac er budd y cyhoedd, bydd ymweliad safle pellach yn digwydd
- Dilynir gan lythyr 14 diwrnod
- Ac yn olaf ymweliad safle arall

Dylid nodi y gellid ar unrhyw adeg yn y broses ystyried nad yw achos yn ddoeth nac er budd y cyhoedd ac yna ni fyddai unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd. Hefyd, o ran "hysbysiadau" mae'r broses ychydig yn wahanol ond eglurodd y Swyddog mai dyma'r broses ar gyfer y rhan fwyaf o achosion.
Gellir apelio i'r rhan fwyaf o hysbysiadau, gyda'r apêl yn cael ei thrin gan PCAC.
"Mae hysbysiadau gorfodi A.172 yn nodi mai niwed i'r cyhoedd ynghyd â thoriad yw'r meini prawf allweddol ar gyfer rhoi'r hysbysiad.

- Mae peidio â chydymffurfio yn drosedd gyda dirwy o hyd at £20,000 yn yr ynadon neu ddirwy diderfyn yn Llys y Goron
- Gellir cymryd camau gweithredu uniongyrchol hefyd
- Mae rhai achosion o dorri rheolau sy'n gallu arwain at hysbysiadau sydd â chyfyngiadau amser cyn i imiwnedd gael ei roi am y tramgwydd

<u>Cwestiynau</u>
Gofynnodd y Cynghorydd Forsey beth oedd "camau gweithredu uniongyrchol" yn ei olygu?
Nododd yr Uwch Swyddog Gorfodi Cynllunio mai camau gweithredu uniongyrchol oedd y camau gofynnol oedd eu hangen i unioni'r sefyllfa, a rhoddwyd enghraifft lle cafodd y cyngor wared ar "iard galed".
Mae'r cyngor yn ysgwyddo'r gost o gymryd camau gweithredu uniongyrchol i ddechrau, ond yna caiff ei throsglwyddo i'r perchennog neu drwy werthu'r tir.
Rhoddodd y Cynghorydd Forsey enghraifft o'r camau gweithred hyn yn Nhŷ-du.
<u>Prif bwyntiau</u>

Hysbysiadau Stop A.183

- Angen i'r datblygiad stopio
- Anaml y'i defnyddir

Hysbysiad Torri Amod A.187A

- Gofyn cydymffurfio â chaniatâd cynllunio
- Dim hawl i apelio
- Dirwy'n 1000 yn y llys ynadon
- Rhoddwyd Redrow Homes fel enghraifft

Hysbysiad Tir Hyll A.215

- Yn ei gwneud yn ofynnol i wastraff neu faterion hyll ar eiddo gael eu clirio
- Dirwy o £1000 gan yr ynadon, £100 y dydd yn dilyn yr erlyniad cyntaf
- Daw'r rhybudd i ben unwaith y cydymffurfir

Adeiladau Rhestredig A.38 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

- Gwneud gwaith heb awdurdod ar adeilad rhestredig
- Hyd at £20,000 a hyd at 2 flynedd yn y carchar
- Nodwyd bod y rhan fwyaf o droseddau yn digwydd drwy fod yn naïf yn hytrach na bwriad i dorri'r gyfraith
- Rhoddwyd TJ ym Mhlas Clarence fel enghraifft

Hysbysebion Anawdurdodedig A.224

- Hysbysebion mewn mannau heb awdurdod
- Dirwy o £2500 yr hysbyseb, £250 y dydd yn dilyn yr erlyniad cyntaf

Coed Gwarchodedig A.211

- Mae’n drosedd i ddifrodi coed mewn unrhyw ffordd sydd naill ai’n warchodedig eu hunain neu mewn ardal warchodedig

I gloi, mae'r tîm gorfodi yn ymgynghori ag eraill er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfaoedd sy'n achosi niwed yn ogystal â sut i leihau'r niwed. Ategwyd ei fod yn ymwneud ag unioni niwed ac nid cosbi.
Roedd yr Uwch Swyddog Gorfodi Cynllunio yn teimlo nad oedd y llys yn gosod cosbau’n dda iawn, ond mae'r farn wedi newid ers hynny.
<u>**Cwestiynau**</u>
Roedd Cynrychiolydd Maerun eisiau diolch i'r swyddog gorfodi cynllunio am y cyflwyniad a nododd ar ôl cyfathrebu â CNC eu bod yn teimlo bod dirwyon tipio anghyfreithlon braidd yn fach o ystyried cost clirio'r gwastraff.
Fe wnaeth yr Uwch Swyddog Gorfodi Cynllunio dynnu sylw at y ffaith bod dirwyon weithiau'n isel gan nad oedd y llysoedd yn deall natur y troseddau.
Gofynnodd cynrychiolydd Maerun a fyddai modd gwneud cyflwyniad i'r llysoedd y tu allan i'r achos llys, er mwyn egluro pa mor ddifrifol oedd y troseddau.
Dywedodd yr Uwch Swyddog Gorfodi Cynllunio na fyddai'n erbyn hyn.
Amlygodd y Cadeirydd fod cyfyngiad ar yr hyn y gall swyddogion ei wneud, ond bod gan lysoedd ganllawiau dedfrydu i ddelio â materion fel tipio anghyfreithlon.
Roedd Cynrychiolydd Maerun yn teimlo bod angen cosbau cryfach gan nad yw'r rhai presennol yn atal digon o bobl rhag cyflawni tramgwyddau tipio anghyfreithlon.
Nododd yr Uwch Swyddog Gorfodi Cynllunio y gall fod yn anodd dod o hyd i ganllawiau i’r llysoedd weithiau, ond bod angen bod yn ofalus wrth ddylanwadu ar y llysoedd. Roedd y swyddog yn teimlo bod dioddefwyr yn allweddol o ran dangos bod erlyn yn werth chweil.
Diolchodd y Cynghorydd Forsey i'r swyddog am y cyflwyniad a nododd y byddai’n anfon achos at y tîm gorfodi yn y dyfodol agos.
Holodd y Cynghorydd Forsey am ganlyniadau achos a grybwyllwyd yn flaenorol gan y Swyddog Gorfodi?
Dywedodd yr Uwch Swyddog Gorfodi Cynllunio ei fod yn teimlo y gallai'r achos gael ei erlyn gan nad yw'r parti dan sylw wedi ceisio cydweithredu hyd yma, ond nodwyd y gallai hyn newid.
Gofynnodd Cynrychiolydd Gwynllŵg pam nad oedd hysbysiadau stop yn cael eu defnyddio'n aml.
Cyfeiriodd yr Uwch Swyddog Gorfodi Cynllunio at y ffaith mai niwed yw'r prif ffocws a bod hysbysiadau stop yn eithriadol oherwydd eu natur a'r ffaith y gellir dyfarnu iawndal os cânt eu hapelio yn y llys.
Roedd Cynrychiolydd Gwynllŵg yn teimlo bod yr hysbysiadau’n effeithiol iawn.
Ailadroddodd y Cadeirydd bwynt y swyddog y gallai hysbysiad stop fod yn agored i iawndal sylweddol os canfyddir ei fod yn anghywir. Nododd y Cadeirydd ymhellach y gall gwaharddebau fod â chost uchel gyda'r llysoedd yn meddu ar ddisgresiwn ynghylch a ddylid rhoi gwaharddeb.
Holodd Cynrychiolydd Gwynllŵg pam nad yw achosion a allai fod yn destun sawl achos o dorri rheolau yn cael hysbysiadau stop?

Dywedodd y Cadeirydd fod ymgyfreitha yn ei hanfod yn beryglus a bod rhaid i'r cyngor bwyso a mesur y gost yn erbyn y niwed sydd wedi'i achosi, gyda'r llysoedd yn ddewis olaf nid y cyntaf.
Nododd cynrychiolydd Graig ei fod yn fater o bwyso a mesur y risg/gwobr.
Awgrymodd yr Uwch Swyddog Gorfodi Cynllunio oherwydd bod gwaharddebau'n dod â chosb o garchar y gallai fod yn anodd cael llwyddiant â nhw pan fyddant yn dod i'r llysoedd.
Ategodd y Cadeirydd at bwynt y swyddog drwy ddweud nad yw'r gwaharddeb bob amser yn arwain at y canlyniad a ddymunir.
Cododd cynrychiolydd Gwynllŵg y mater y dylai'r rheolau a'r rheoliadau fod yn gyson, gan ei fod yn teimlo bod camau'n cael eu cymryd ar rai achosion a ddim ar eraill. Nododd y Cynrychiolydd hefyd faterion gyda cheir segur ar y tiroedd comin.
Nid oedd yr Uwch Swyddog Gorfodi Cynllunio yn teimlo bod anghysondebau, gan nodi amrywiaeth o erlyniadau sydd wedi digwydd, ond gan nodi nad yw'r canlyniad bob amser yr un gorau. O ran y problemau gyda cheir segur ar y tiroedd comin, nododd y Swyddog y gallai fod yn fater adran 215.
Gofynnodd Cynrychiolydd Gwynllŵg pam nad yw cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i achosion sydd wedi cael eu herlyn?
Nododd y Swyddog Gorfodi Cynllunio nad yw'r awdurdod bob amser yn dda am roi cyhoeddusrwydd ond cadarnhaodd ei fod yn hysbysu'r cynghorau cymuned.
Teimlai Cynrychiolydd Gwynllŵg nad yw'r wasg bob amser yn rhoi cyhoeddusrwydd i bob math o achosion, gan dynnu sylw at achos yn ymwneud â gwastraff.
Dywedodd yr Uwch Swyddog Gorfodi Cynllunio, oherwydd bod yr achos y cyfeiriwyd ato yn parhau, mai'r peth gorau oedd peidio â siarad amdano ymhellach.
Gofynnodd Cynrychiolydd Maerun pa newid polisi neu brotocol fyddai'n helpu i wneud bywyd y timau gorfodi cynllunio'n haws?
Roedd yr Uwch Swyddog Gorfodi Cynllunio'n teimlo y byddai cael deddfwriaeth gyfunol sy'n cwmpasu'r holl ddeddfwriaeth briodol yn ddefnyddiol iawn gan fod y tîm weithiau'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i ddeddfwriaeth benodol. Roedd y Swyddog hefyd yn teimlo y dylent fod yn atebol i'r Arolygiaeth Gynllunio.
Gofynnodd Cynrychiolydd Maerun a yw'r Swyddog yn teimlo y bydd y cyfuno gan Lywodraeth Cymru yn digwydd?
Roedd yr Uwch Swyddog Gorfodi Cynllunio yn teimlo bod y newid yn dechrau cael ei adlewyrchu yng Nghymru ond nid Cymru a Lloegr.
Roedd Cynrychiolydd Maerun eisiau diolch i'r Swyddog am y cyflwyniad a gofynnodd a ellid dosbarthu'r sleidiau.
Gofynnodd Cynrychiolydd Graig a oedden nhw'n gweithio gyda chynghorau cyfagos ar faterion oedd ar ffin y ddau? Gofynnodd y Cynrychiolydd hefyd a ydyn nhw'n gweithio gyda chynghorau eraill ar faterion a allai effeithio ar Gasnewydd rhyw ddydd?
Dywedodd yr Uwch Swyddog Gorfodi Cynllunio os yw'r achos yn pontio'r ddwy ffin, yna bydd y ddau gyngor yn delio ag ef, os yw'n amlwg yn un sir, yna bydd y cyngor hwnnw'n delio â'r achos. Fodd bynnag, efallai y byddant yn gweithio gyda'r sir arall os ydynt yn teimlo y gallai'r achos effeithio arnyn nhw yn y dyfodol. Dywedodd y Swyddog hefyd fod grŵp anffurfiol ar gyfer De-ddwyrain Cymru, a bod tîm Casnewydd yn rhan o'r grŵp Gorfodi Cynllunio Cenedlaethol sy'n dosbarthu cyfraith achosion a dogfennau perthnasol eraill iddynt.
Dywedodd yr Uwch Swyddog Gorfodi Cynllunio fod fforymau fel y cyfarfod presennol wedi helpu.
Holodd Cynrychiolydd Gwynllŵg a fyddai mwy o staff hefyd yn helpu?
Dywedodd yr Uwch Swyddog Gorfodi Cynllunio fod hwnnw'n gwestiwn i rywun ar raddfa uwch ond nododd fod ganddynt 2 aelod newydd o staff sydd wedi dechrau'n ddiweddar.
Roedd Cynrychiolydd Gwynllŵg eisiau diolch i'r Swyddog am y swydd y mae'n ei wneud gan nodi y byddent yn ei gefnogi cymaint ag y gallant.

## 5 Unrhyw Fater Arall

Holodd Cynrychiolydd Maerun eu bod wedi dechrau ymgyrch bws i gael llwybr parhaol yn eu tref ond bod dim byd wedi symud ymlaen. Gofynnodd y Cynrychiolydd a oedd yn gallu siarad â rhywun o'r adran drafnidiaeth?

Eglurodd y Cadeirydd mai’r cwmni bysus sy’n delio â'r llwybrau ac nad oes pwyllgor yn y cyngor sy'n delio â’r mater.
Hoffai Cynrychiolydd Maerun wybod pwy sy’n gwneud y penderfyniadau yn y pen draw fel y gallant drafod gyda hwy?
Nododd y Cadeirydd mai dim ond llwybrau â chymhorthdal y mae'r cyngor yn delio â hwy ac mae’r cwmnïau bysus sy’n penderfynu ar y llwybrau. Dywedodd y Pennaeth mai Richard Cope fyddai'r unig un fyddai’n gallu cadarnhau pwy sydd â'r penderfyniad terfynol.
Rhoddwyd y cyfeiriad e-bost ar lafar.
Dywedodd y Cadeirydd wrth y cynrychiolydd y byddai’n holi ei swyddfa fel bod ymateb yn cael ei roi.
Gofynnodd y Cynghorydd Forsey pa eitemau fyddai ar yr agenda nesaf?
Dywedodd y Cadeirydd wrth y pwyllgor y byddai'r cyfarfod nesaf ym mis Ionawr.
Dywedodd y Swyddog Cymorth Llywodraethu hefyd wrth y pwyllgor y byddai aelod newydd o'r tîm yn cymryd drosodd y cyfarfod nesaf, felly dylid anfon unrhyw ymholiadau at yr unigolyn hwnnw.
Gofynnodd Cynrychiolydd Gwynllŵg am yr hyfforddiant cod ymddygiad.
Nododd y Cadeirydd os hoffent gael mwy o hyfforddiant y gellir trefnu hynny. Dywedodd hefyd wrth y pwyllgor y byddai'n ymddeol ym mis Rhagfyr ac roedd eisiau diolch i'r pwyllgor am yr holl waith maen nhw wedi'i wneud.
Gofynnodd Cynrychiolydd Graig a oedd yr aelodau'n hapus i gael cyfarfodydd hybrid wrth symud ymlaen.
Dywedodd yr Aelodau y byddent yn hapus gyda hyn.
Mae'r Cadeirydd yn ansicr pwy fydd yn ei ddisodli yn y cyfarfod nesaf ond dywedodd wrth y pwyllgor, os nad oes pennaeth newydd, mai Elizabeth Bryant neu Leanne Rowlands fydd y Cadeirydd.
Diolchodd Cynrychiolydd Graig i Gareth am yr holl waith mae wedi'i wneud.
Diolchodd aelodau eraill o'r pwyllgor iddo hefyd.

6 **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

19 Ionawr 6pm 2023

7 **Webcast of Meeting**

The meeting terminated at Time Not Specified